

Pa wybodaeth rydyn ni ei hangen i'ch Asesu?

Myfyrwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Dylech fod eisoes wedi cwrrd ag Ymgynghorydd Anabledd neu Ymgynghorydd Llesiant ac wedi rhoi copi i ni o'ch tystiolaeth feddygol fel gall yr Ymgynghorydd eich helpu i wneud cais am lwfans DSA.

Unwaith bydd eich corff ariannu wedi ymateb yn gofyn i chi drefnu i gael Aseiad Anghenion, bydd angen i chi anfon y rhain aton ni:

•Copi o'r llythyr cymeradwyaeth oddi wrth eich corff ariannu

•Holiadur Cyn-asesiad (wedi ei atodi i e-bost cymeradwyaeth)

Rhai heb fod yn fyfyrwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Bydd angen i chi anfon rhain aton ni:

•Eich tystiolaeth feddygol (e.e. llythyr meddyg neu adroddiad seicolegydd addysg)

•Copi o'r llythyr cymeradwyaeth oddi wrth eich corff ariannu

•Holiadur Cyn-asesiad (wedi ei atodi i e-bost cymeradwyaeth)

Ar ôl yr Aseiad

O fewn 10 diwrnod gwaith o'ch aseiad anfonir adroddiad drafft atoch (yn rhoi manylion y strategaethau cymorth ac argymhellion gytunwyd â'r asesydd). Anfonir yr adroddiad hwn at eich cyfeiriad e-bost ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd (neu, os nad ydych chi'n fyfyrwr/wraig ym Met Caerdydd, i'r cyfeiriad e-bost fyddwch chi wedi ei roi i ni). Gallwch ddewis peidio derbyn drafft o'ch adroddiad, ac os felly, caiff yr Adroddiad Aseiad Anghenion ei anfon yn uniongyrchol i'ch corff ariannu.

Rhaid i chi'n ffurfiol gymeradwyo'r adroddiad (neu ofyn am wneud newidiadau iddo, os bydd angen) o fewn 5 diwrnod gwaith cyn iddo gael ei anfon i'ch corff ariannu. Gwnewch hyn drwy e-bost (neu ffôn os mynnwch). Hefyd, wnewch chi lanw'r holiadur adborth e-bostiwyd atoch gyda'ch adroddiad drafft, i'n helpu i wella'n gwasanaethau.

Unwaith byddwch chi wedi cymeradwyo'ch adroddiad, caiff ei anfon at eich corff ariannu o fewn 1 diwrnod gwaith. Byddwn hefyd yn anfon copi terfynol o'ch adroddiad atoch chi drwy e-bost, i'w gadw gennych chi.

Os na fyddwn wedi clywed oddi wrthych chi o fewn 5 diwrnod gwaith, yna fe fyddwn yn anfon eich adroddiad at eich corff ariannu heb eich cymeradwyaeth.

Yna, bydd eich corff ariannu'n prosesu'r adroddiad ac yn cysylltu â chi drwy e-bost i'ch hysbysu pa gyflenwyr ddylech chi gysylltu â nhw i drefnu i'ch offer gael ei ddelifro.

Y Ganolfan Asesu



Pwy ydyn ni

Mae Canolfan Asesu Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn un o ganolfannau achrededig Grŵp Sicrhau Ansawdd Lwfans i Fyfyrwyr Anabl yn y DU, sy'n cynnig Assesiadau Anghenion, elwir hefyd yn Assesiadau Anghenion Sgiliau Dysgu a Thechnoleg (SSTAs) i unigolion cymwys i dderbyn Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA).



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

Beth sy'n digwydd yn yr Asesiad Anghenion?

1

Bydd asesydd profiadol yn trafod eich sefyllfa benodol gyda chi a'r modd mae'ch anabledd yn effeithio ar eich cwrs. Fe fyddan nhw'n cadarnhau'r hyn rydych chi eisoes wedi ei glywed (gan ymgynghorydd anabledd) am y ffordd mae'r lwfans DSA yn gweithio a'r math o gymorth y gellir ei argymhell.

2

Bydd yr asesydd yn ystyried pob agwedd o'ch cwrs ac yn eich holi sut mae'r anabledd yn effeithio ar feysydd fel ymchwil, darllen, mynychu darlithoedd, cymryd nodiadau, cynllunio aseiniad a'i ysgrifennu, strategaethau rheoli amser, ayb.

3

Bydd yr asesydd yn cyfuno'r hyn fyddwch chi'n ddweud wrtho/wrthi gyda'r dystiolaeth feddygol fydd gennych iddo.

4

Caiff strategaethau cymorth addas, newidiadau sefydliadol ac offer, eu trafod gyda chi a'u harddangos. Argymhellir a chytunir cymorth penodol ar gyfer eich anghenion, gyda chi eich hun.

5

Bydd yr argymhellion terfynol ar ffurf adroddiad ffurfiol, y gellir ei anfon atoch am eich cymeradwyaeth, cyn iddo gael ei anfon at eich corff ariannu (SFE, SFW)

6

Fel arfer, mae asesiad yn parhau am rhwng 1 a 2 awr.

Cyfleusterau parcio

Mae campws Llandaf o Brifysgol Metropolitan Caerdydd ar Rodfa'r Gorllewin (A48) rhwng cyfnwidfa Gabalfa a Llandaf, a thros y ffordd i adeilad CBAC. Ein cod post ydy CF5 2YB.

- Mae gofod parcio'n brin ar gampws Llandaf. Does dim lle parcio i fyfyrwyr ond mae gofod rhannu cerbydau ar gael yn Neuaddau Plas Gwyn ar Heol Llantrisant. Os oes gennych fathodyn glas yna mae lle ar gael ar gampws Llandaf..
- Os byddwch yn rhagweld problem, yna ffoniwch 029 2041 6170.

Mae'r ddolen isod yn dangos lleoliad campws Llandaf Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Neuaddau Preswyl Plas Gwyn:
www.cardiffmet.ac.uk/about/campuses/Pages/default.aspx

Rydyn ni'n argymhell dylech chi ddefnyddio cludiant cyhoeddus oherwydd y prinder lle parcio sydd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Am fanylion amseroedd a llwybrau'r bysiau ewch ar: www.cardiffbus.com or phone 029 2066 6444

(I fyfyrwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn unig)
Gwasanaeth bysiau rhwng gwahanol safleoedd Met Caerdydd 'Cardiff Met (UWIC) Rider':
gweler prif dderbynfa eich campws am yr amserlen.

Manylion cyswllt

Y Ganolfan Asesu Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Gwasanaethau Myfyrwyr
Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YB

Ffôn: 029 2041 6170
E-bost: ssta@cardiffmet.ac.uk

Oriau Agor:
Dydd Llun i Ddydd Iau
9:00am - 4:30pm
Gwener 9:00am - 4:00pm



Ymweld â ni am apwyntiad

Mae Canolfan Asesu Prifysgol Metropolitan Caerdydd ar 2ail lawr Bloc A, uwchben yr 'i-zone' a phrif dderbynfa Campws Llandaf o Brifysgol Metropolitan Caerdydd (CF5 2YB) fel gwelwch ar y map hwn.

Gofynnwch am gyfarwyddiadau gan y brif dderbynfa neu ffoniwch 029 2041 6170 os cewch chi drafferth i ddod o hyd i ni.

Os byddwch yn rhagweld trafferthion mynediad, cysylltwch â ni 029 2041 6170 cyn eich apwyntiad.

Gallwch gael mynediad drwy ddefnyddio'r grisiau neu'r lifft: lled drws y lifft ydy 80cm ac mae'r caban eu hun yn 139 o ddyfnder. Y drysau lleiaf o ran lled fydd rhai 77cm o led.

Ceisiwch gyrraedd o leiaf 10 munud cyn eich apwyntiad.

Os na allwch ddod i apwyntiad, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl. Gallwch wedyn drefnu dyddiad arall a sicrhau bod rhywun arall yn gallu defnyddio'r bwlch gwreiddiol.